**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Ionawr 2021 am 3.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S Powderhill |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd K Jones |
| Y Cynghorydd S Morgans | |

**78 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**79 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**80 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 81 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2020 yn rhai cywir.

## 82 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 83 CAIS RHIF: 20/1196

**Amrywio amod 1b - estyniad amser caniatâd cynllunio 16/1385/13. TIR I'R GORLLEWIN O'R A4119, CEFN YR HENDY, MWYNDY, PONT-Y-CLUN.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Peter Waldren (Asiant)
- Mr David Rees (Gwrthwynebydd)
- Mr Alvin Fripp (Gwrthwynebydd)
- Ms Emma Heaversedge (Gwrthwynebydd)
- Ms Helen Fisher (Gwrthwynebydd)

Darllenodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys dau gyflwyniad ysgrifenedig gan Mr Ceri Thomas (Gwrthwynebydd) a Ms Sophie Seymour (Gwrthwynebydd).

Arferodd yr Asiant, Mr Peter Waldren, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Jones, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gytundeb Adran 106 gyda'r telerau canlynol:

- Darparu 20% ar ffurf tai fforddiadwy
- Darpariaeth y ganolfan leol ar feddiannaeth o 75% o'r anheddau (345 annedd);
- Cytundeb parhaus ar raglen reoli hirdymor ar gyfer rheoli'r man agored i'r gogledd o'r safle ac ardaloedd ecolegol sensitif ar y safle;
- Darparu man gwyrdd a mannau chwarae ar gyfer rheoli a chynnal a chadw yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar rwymedigaethau cynllunio;
- Cytuno ar gynllun hyfforddiant cyflogaeth a sgiliau; a
- Cyfraniad ariannol o £90,000 tuag at ddarparu lleoedd parcio a theithio ychwanegol yng ngorsaf reilffordd Pont-y-clun.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo rhag pleidleisio ar y cais yma gan nad oedd yn bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

84 **CAIS RHIF: 20/1312**

**Man storio dros dro ar gyfer oddeutu 8,000m3 o ddeunydd o dirlithriad Tylorstown sy'n cynnwys ffurfio pentyrrau stoc, cydgrynhoi deunydd, draenio, mesurau lliniaru cynefinoedd/ecolegol a gwaith cysylltiedig. (Rhannol Ôl-weithredol)**
**HEOL YR ORSAF, GLYNRHEDYNOG**

Siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Bevan ac S Morgans, nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor, ar y cais a chyflwyno eu cefnogaeth mewn perthynas â'r cynnig uchod a chais 20/1313 y manylir arno yng Nghofnod 85 isod.

Yn unol â gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, darllenwyd cynnwys cyflwyniad ysgrifenedig gan Mr Chris Mutch i'r Pwyllgor, yn amlinellu ei wrthwynebiadau i'r cais hwn a chais 20/1313.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

85 **CAIS RHIF: 20/1313**

**Man storio dros dro ar gyfer oddeutu 22,000m3 o ddeunydd o dirlithriad Tylorstown sy'n cynnwys ffurfio pentyrrau stoc, cydgrynhoi deunydd, draenio, mesurau lliniaru cynefinoedd/ecolegol a gwaith cysylltiedig. (Rhannol Ôl-weithredol)**
**TIR GYFERBYN Â PHARC BUSNES MAES-Y-DERI, GLYNRHEDYNOG**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

86 **CAIS RHIF: 20/1072**

**Codi adeilad ar wahân i'w ddefnyddio ar gyfer warysau (Derbyniwyd y ffin llinell goch ddiwygiedig ar 03/12/2020). UNED 12 I 14 TUBEX LTD, YSTAD DDIWYDIANNOL PARC ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 6DA.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

87 **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 21/12/2020 – 08/01/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**